

PUGHE, ELIZABETH ('Eliza') (1826 - 1847), darlunydd byddar

Enw: Elizabeth ('eliza') Pughe

Dyddiad geni: 1826

Dyddiad marw: 1847

Rhyw: Benyw

Galwedigaeth: darlunydd byddar

Maes gweithgaredd: Addysg; Celf a Phensaerniaeth; Ysgolheictod ac Ieithoedd

Awdur: Gareth Richard Foulkes

Ganwyd Eliza Pughe yn 1826 yn Chwaen Wen, Tref Alaw, Môn, yr ifancaf o dri o blant David Roberts Pughe a'i wraig Elizabeth. Chwaen Wen oedd cartref teulu ei mam. Symudodd y teulu i Coch-y-Bug, Pontllyfni ger Clynnog Fawr tua 1828.

Brawd hynaf Eliza oedd [John Pughe](#) (1814-1874), Cymrawd o Goleg Brenhinol y Llawfeddgon a gŵr adnabyddus yng nghylchoedd llenyddol Cymru fel cyfieithydd [Meddygon Myddfai](#). Roedd yn gyfaill i'r athro a bardd [Ebenezer Thomas \(Eben Fardd\)](#). Roedd brawd arall Eliza, [David William Pughe](#) (1821-1862), yn fardd a hynafiaethydd yn ogystal â llawfeddyg medrus.

Yn ôl nodyn bywgraffyddol yn ei geiriadur Saesneg/Cymraeg darluniadol, bu Eliza Pughe fyw o 1831 i 1850 (sic) yn Coch y Big (sic). Awdur y nodyn oedd nith Eliza, yr artist Buddug Anwylini Pughe (1856-1939), ac mae'n disgrifio Eliza yn 'deaf and dumb from birth, and was a very pretty girl'.

Mae geiriadur darluniadol Eliza (sydd bellach ar gadw yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru) yn cynnwys cannoedd o fân ddarluniau wedi eu tynnu â llaw, ynghyd ag enwau a berfau Saesneg a Chymraeg yn disgrifio pob darlun. Mae'n debygol iawn mai Eliza ei hun wnaeth y darluniau hyn, ac maent yn dangos ei bod yn arlunydd ifanc dawnus gyda llygad da am fanylion. Tystia'r geiriadur i ymdrechion y teulu i addysgu Eliza yn y cartref, gan ei fod wedi ei ysgrifennu a'i ddarlunio dros hanner can mlynedd cyn Deddf Addysg Gynradd (Plant Dall a Byddar) 1893 a'i gwnaeth yn orfodol i blant byddar fynychu ysgol rhwng pump ac un ar ddeg mlwydd oed.

Mae darluniau Eliza yn rhoi cipolwg difyr ar fywyd domestig dosbarth canol Sir Gaernarfon yn y 1830au a'r 40au, gan gynnwys lluniau o wisgoedd y cyfnod, offer coginio, teclynnau a ddefnyddid yn y cartref, dodrefn, anifeiliaid, pryfed, a bywyd gwledig, yn ogystal â darluniau o offer gwaith ei brodyr megis gefeiliau, chwiliedydd llygaid a thryffin. Mae rhai o'r lluniau wedi eu lliwio'n llachar - cot sgarlad milwr â cholera uchel ddu ac epaulette aur. Ceir yma hiwmor hefyd: dyn byddar â thrwmped clust yn codi llaw ar ddydd arall sy'n syllu'n gegrwrth, a dyn dall wedi colli ei het trwy daro cangen isel. Mae rhai lluniau'n anghyflawn ond yn cynnig awgrym o helyntion cymdeithasol y cyfnod; criw o ffermwyr wedi eu gwisgo fel merched yn codi terfysg wrth dollborth, a elwir yn y capsion yn ferched Rebecca.

Yn ôl nodyn Buddug Anwylini Pughe rhwymwyd y llyfr gan Eben Fardd. Yn ogystal â'i werth o ran hanes cymdeithasol Cymru, mae'r geiriadur yn rhan bwysig o etifeddiaeth hanes pobl fyddar.

Bu Eliza Pughe farw'n un ar hugain oed ar 7 Rhagfyr 1847 yn Brondirion, Clynnog Fawr. Brondirion oedd lleoliad ">meddygfa ei brawd David. Nodir achos ei marwolaeth ar y dystysgrif fel 'llid yr ysgyfaint'. Fe'i claddwyd ym meddrod y teulu ym mynwent eglwys Beuno Sant, Clynnog Fawr. Flynyddoedd yn ddiweddarach claddwyd ei thad yn yr un bedd.

Ar ei charreg fedd ceir englyn o waith Eben Fardd:

Geneth ddoniol, gain, a thyner - edwodd,
Yn adeg ei gwychder;
O dwrf byd, y wryf ber,
Esgynnodd i lys gwiwner.

Awdur

Gareth Richard Foulkes

Ffynonellau

J.H. Cule, '[John Pughe, 1814-1874. A scholar surgeon's operation on the imperforate anus](#)', *Annals of the Royal College of Surgeons*, 37:4 (Hydref 1965), 247-57

Eben Fardd, [Cyff Beuno, sef awdl ar adgyweiriad eglwys Clynnog Fawr. Yng nghyd a nodiadau hynafol, achyddiaeth, daiaregaeth y plwyf, rhestr o'r beirdd a'r llenorion; at yr hyn y chwanegwyd nodion a hynodion y bardd gan Ioan ab Hu Feddyg \(Tremadog 1863\)](#)

G. R. Foulkes, 'Deaf Lives: Eliza Pughe', *Deaf History Journal*, 14:2 (2011)

M. Pritchard, *Y Casglwr pob peth printiedig*, rhif 43 (1991)

Eliza Pughe, *Pictorial dictionary [graphic]*

Gweithiau

Eliza Pughe, *Pictorial dictionary [graphic]*

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q125792310](https://www.wikidata.org/wiki/Q125792310)

Dyddiad cyhoeddi: 2024-06-19

Hawlfraint Erthygl: <https://creativecommons.org/licenses/by-sa/4.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

